# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ........ 1

Hanes adolygu a chymeradwyo ..... 3
Cyflwyniad ..... 3
Rolau a chyfrifoldebau ..... 4
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ..... 4
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ..... 5
Egwyddorion cydweithredu ..... 5
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd ..... 6
Cyfnewid Gwybodaeth ..... 6
Arolygiadau ar y Cyd ..... 7
Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau ..... 7
Llywodraethu ..... 7
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu ..... 8
Llofnodwyd ..... 8
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth ..... 9
Atodiad B – Manylion Cyswllt ..... 9

## Hanes adolygu a chymeradwyo

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 1.0 |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | Tachwedd 2012 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Mandy Collins<br>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Julie Fox |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dyddiad y'i crëwyd** | Awst 2020 |
| **Awduron** | AGIC: Joseph Wilton<br>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Tony Kirk |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | Hydref 2020 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Alun Jones<br>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Dr Louise Falshaw |
| **Dyddiad adolygu** | Hydref 2019 |

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC nac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.

4. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw diffinio cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a disgrifio'r ffordd y bydd AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gwelliannau o ran ansawdd y gofal. Mae'n cwmpasu'r ffordd y bydd AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn cydweithio wrth ymgymryd â'u priod swyddogaethau pan fydd hyn yn cyfrannu fwyaf at welliannau o ran gwaith gydag oedolion a phlant sy'n troseddu neu sy'n debygol o gymryd rhan yn y troseddu.

5. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir sefydlu cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

6. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:
   - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
   - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
   - Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
   - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
   - Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
   - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

7. Nod AGIC yw:
   - Rhoi sicrwydd: Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.
   - Hybu gwelliant: Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da
   - Dylanwadu ar bolisi a safonau: Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

8. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru i sicrhau bod cleifion, y cyhoedd ac eraill yn cael gofal diogel ac effeithiol sy'n bodloni safonau cydnabyddedig. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er

mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.

9. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

10. Ni yw'r ffynhonnell annibynnol ar gyfer sylwadau teg i weinidogion a'r cyhoedd mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddwyr ifanc. Ar sail ein hannibyniaeth, arbenigedd a phrofiad, gallwn ganolbwyntio'n unigryw ar nodi arferion gorau ac effeithiol. Rydym yn nodi os bydd rhywbeth wedi llwyddo, sut mae wedi llwyddo, ond hefyd y rhesymau pam nad yw wedi llwyddo. Rydym yn profi pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, ac yn rhoi sicrwydd. Yn hanfodol, rydym yn gwneud argymhellion er mwyn nodi a rhannu arferion gorau, herio perfformiad gwael ac annog gwelliannau. Rydym yn darparu gwybodaeth ar sail tystiolaeth i gomisiynwyr a darparwyr, er mwyn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o hwyluso ac annog gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

11. Nodir cyfrifoldebau Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi yn Adran 7 o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007*, adran 12(3)(a). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd arolygu (adran 1) ac adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol (adran 3) ar y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau prawf.

12. O dan Adran 7(6) o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000*, mae dyletswydd ar Brif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi hefyd i arolygu Timau Troseddwyr Ifanc, a sefydlwyd o dan adran 39 o *Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998* ac adrodd arnynt, a chyrff sy'n gweithredu ar eu rhan.

## Egwyddorion cydweithredu

13. Mae AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio.

14. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:
    - yr angen i wneud penderfyniadau sy'n hybu gofal iechyd o ansawdd uchel, ac sy'n diogelu ac yn hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion, yn benodol i'r bobl hynny dan oruchwyliaeth gwasanaethau troseddwyr ifanc;
    - bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
    - parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;

- yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynu a rhannu gwybodaeth yn briodol;
- yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad; a
- ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achos o orgyffwrdd neu fylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio.

15. Mae AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi hefyd yn ymrwymedig i fabwysiadu dulliau rheoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'u targedu (egwyddorion gwell rheoleiddio).

## Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

### Cyfnewid Gwybodaeth

16. Bydd cydweithio rhwng AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Bydd disgwyl cyfnewid gwybodaeth yn yr achosion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
    - lle bydd naill ai AGIC neu Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn nodi pryderon am iechyd a llesiant y cyhoedd, yn benodol y bobl hynny sydd mewn cysylltiad â goruchwylwyr gwasanaethau troseddwyr ifanc, yn arbennig mewn perthynas â byrddau iechyd fel comisiynwyr iechyd gofal i droseddwyr yng Nghymru.
    - byddai datrys pryder yn cael budd o ymateb amlasiantaeth sydd wedi'i gydlynu.

17. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a chaiff y wybodaeth ei rhannu’n gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl. Caiff y manylion cyswllt yn Atodiad B eu defnyddio i godi a rhannu pryderon.

18. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003; adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u Codau Ymarfer, fframweithiau neu bolisïau priodol eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth.

19. Mae AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

### Arolygiadau ar y Cyd

20. Gall AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, drwy gytundeb, gynnal arolygiadau ar y cyd neu adolygiadau o unrhyw ddarpariaeth/darparwr y mae cyfrifoldebau amdani/amdano gan y ddau ohonynt. Cynhelir yr arolygiadau ar y cyd hyn gan y ddau sefydliad gan barhau i arfer eu gwahanol bwerau statudol, swyddogaethau a gofynion adrodd. Gweler Atodiad A am fwy o wybodaeth.

### Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau

21. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau i'r cyhoedd a gynllunnir ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.

22. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn ymrwymo i gydweithio, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

23. Bydd AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi ac ni fyddant yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.

## Llywodraethu

24. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Disgrifir y cyswllt hwn, ac unrhyw waith mewn partneriaeth, yn Atodiad A.

25. Cynhelir o leiaf un cyfarfod y flwyddyn rhwng y Prif Swyddogion Gweithredol i drafod pryderon strategol sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisïau a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt perthnasol ar lefel weithredol y ddau sefydliad yn Atodiad B.


26. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ei ddatrys ar lefel waith. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

27. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.

28. Nid oes cyfyngiad amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

**Llofnodwyd**



**Alun Jones**

Prif Weithredwr Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 19 Hydref 2020



**Justin Russell**

Prif Arolygydd Prawf

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Dyddiad: 17 Medi 2020

## Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

**Arolygiadau ar y Cyd**

Mae AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn gweithio mewn partneriaeth wrth adolygu'r gofal iechyd a ddarperir o fewn Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc. Mae'r adolygiadau manwl hyn hefyd yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau partner eraill gan gynnwys Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu trefniadau amddiffyn plant mewn awdurdodau lleol. Mae'r gwaith adolygu hwn hefyd yn cynnwys arolygiaethau partner eraill gan gynnwys Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd**

Bydd AGIC yn rhannu'r canlynol ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn rheolaidd:

- canfyddiadau sy'n gysylltiedig â'i harolygiadau, ymchwiliadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â byrddau iechyd fel comisiynwyr gofal iechyd i droseddwyr yng Nghymru.
- rhaglen o arolygiadau ac unrhyw ymchwiliadau drwy sicrhau bod Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn cael gweld argymhellion sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau yn gynnar, ar ôl iddynt gael eu dilysu.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ | Llawr Cyntaf<br>Manchester Civil Justice Centre<br>1 Bridge Street West, Manceinion<br>M3 3FX |
| Ffôn: 0300 062 8163 | Ffôn: 0161 240 5336 |

Bydd swyddogion cyswllt enwebedig yn AGIC ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fel a ganlyn:

| **Prif Swyddogion Gweithredol** | |
|---|---|
| **Alun Jones**<br>*Prif Weithredwr Dros Dro*<br>Alun.Jones39@gov.wales | **Justin Russell**<br>*Prif Arolygydd Prawf*<br>Justin.russell@justice.gov.uk |
| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
| **Joseph Wilton**<br>*Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg*<br>joseph.wilton@gov.wales<br>Ffôn: 0300 025 2663 | **Tony Kirk**<br>*Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arweinydd Cymru*<br>Tony.kirk@hmiprobation.gov.uk<br>Ffôn: 07814 174842 |
| **Mewnflwch Pryderon** | |
| hiw.concerns@gov.wales<br>Ffôn: 0300 062 8163 | Hmip.enquiries@hmiprobation.gov.uk<br>Ffôn: 0161 240 5336 |